Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 477 AWST 2025 | AM DDIM

## YSOL GYMRAEG LÔN LAS YN 75 OED

-HEINI GRUFFUDD

Cafwyd dathliad yn Theatr y Grand ar Orffennaf y 3ydd i nodi 75 mlwyddiant yr ysgol, gyda pherfformiadau gan blant yr ysgol.

Mae hanes sefydlu'r ysgol wedi ei gofnodi mewn traethawd gradd gan Mari Evans, Sgeti, un o'r disgyblion cynnar a hefyd gan Gareth Hopkin yn ei draethawd M.Phil.

Roedd Ysgol Lôn-las yn un o 6 ysgol gynradd Gymraeg gafodd eu sefydlu gan awdurdodau lleol, y cyntaf yng Nghymru ar ôl i Ysgol Gymraeg agor yn Llanelli yn 1947.

Daeth y galw yn Abertawe gan Gyngor yr Eglwysi Rhyddion yn Nhreforys yn 1945, ac yna yn 1947 daeth Norah Isaac ac Ifan ab Owen Edwards i annech cyfarfod a lluniwyd memorandwm gan Eglwysi Cymraeg y dref, y Cymmrodorion, Undeb Cymru Fydd, Undeb Ysgolion Sul, yr Urdd ac UCAC yn gofyn i'r sir wella dysgu Cymraeg yn gyffredinol trwy'r dref.

Roedd y Parch Trebor Lloyd Evans, Tabernacl Treforys, yn allweddol yn y cyfan. Penderfynodd y pwyllgor addysg roi arbrawf ar gychwyn ysgol Gymraeg yn Lôn-las, ond er i rieni 231 o blant ddweud eu bod am gael addysg Gymraeg i'w plant, penderfynodd y dref y byddai costau teithio'n rhy uchel.

Un cynhgorydd a gefnogodd yr ysgol oedd Dr Iorweth Jones, brawd Dr Gwent Jones (tad Guto ap Gwent a Mari Evans). Cynigiodd Dr Iorwerth fod ysgol yn cael ei sefydlu yng nghanol y dref. Cafodd gefnogaeth Rowe Harding (a ddaeth yn farnwr), ond dim ond tri chynghorwr gefnogodd ei gynnig, a 34 yn erbyn.



Dde: yr hen ysgol yn Llwynbrwydrau
Uchod: yr ysgol bren yn Llansamlet

"Y cam nesaf oedd cais Ifan ab Owen Edwards i berswadio rhieni i gychwyn ysgol breifat, fel y gwnaeth ef yn Aberystwyth yn 1939. Aeth Dr Gwent, Dr Gwyn Griffiths, ar Parchedigion W.M. Rowlands a Robert Thomas ac eraill ati i drefnu ysgol yng Nghae Bailey, Mount Pleasant, o dan nawdd yr urdd. Roedd yr adeilad hwn wedi'i brynu gan Dr Annie Owen i fod yn ganolfan i Gymry'r dref ac i'r Urdd.

Yn y cyfamser cysylltodd Ifan ab Owen â Mr Drew, y cyfarwyddwr addysg, a Fred Shail, maer y dref, a llwyddo i'w darbwyllo i ailgydio yng nghynllun Lôn-las, a'r Urdd yn addo talu £300 am dair blynedd i gludo plant.

Agorwyd Lôn-las ym mis Medi 1949 gyda 71 o blant, fel arbrawf. Roedd yr ysgol newydd yn rhannu safle ag ysgol Saesneg, ac oherwydd diffyg lle, penderfynodd y dref na allai'r ysgol dderbyn plant oed meithrin. Penderfyniad arall oedd derbyn plant o gartrefi Cymraeg yn unig.



Ymhen dwy flynedd cafwyd adroddiad cadarnhaol gan Arolygwyr a derbyniodd y dref fod yr ysgol i barhau a derbyn yr un pryd y gost o gludo plant. Tyfodd yr ysgol ar hyd y blynyddoedd, nes mynd yn rhy fawr i'w safle yn Frederick Place, Llwynbrwydrau. Symudodd i adeilad pren ysgol uwchradd Llansamlet lle y codwyd adeilad newydd, maes o law.

Un o gyfraniadau mawr rhieni'r ysgol oedd bod â rhan yn sefydlu Cymdeithas Rhieni Ysgolion Cymraeg yn 1952, yn Festri'r Tabernacl, Treforys, ar y 23ain o Chwefror. Daeth cyrychiolwyr o Gaerdydd, Pontypridd a Llanelli. Y mudiad hwn oedd sail Rhieni dros addysg Gymraeg, y bu ei phrif weithredwr, Elin Maher, yn un o ddisgyblion Lôn-las.

# DATHLU DEUGAIN YSGOL GYFUN GŴYR

-HEINI GRUFFUDD

Nos Iau, 3 Gorffennaf, llanwyd Neuadd y Brangwyn wrth i Ysgol Gyfun Gwyr gynnal cyngerdd i ddathlu ei phen blwydd yn 40.

Gyda Lôn-las yn dathlu 75 yr un noson, mae'n werth cofnodi peth o hanes yr ymgyrch i sefydlu Ysgol Gyfun Gwyr. Roedd pedwar ymgyrchydd yn allweddol yn yr ymgyrch hon, a barhaodd am 7 mlynedd: Dr John Davies a oedd yn ysgrifennydd rhieni Ysgol Gymraeg Lôn-as, Glanville Jones, y bargyfreithiwr di-flewyn-ar-dafod o Southgate a Randolph Jenkins, swyddog Bwrdd Dwr, o Lanmadog, ill dau'n gysylltiedig ag Ysgol Pontybrenin, a'r Parch Gareth Thomas, Clydach, a oedd yn aelod o'r Cyngor fel cynrychiolydd yr Eglwysi Rhyddion. Mae'r pedwar wedi ymadael â ni, heb gael bod yn hynafgwyr.

Ers sefydlu Ysgol Gyfun Ystalyfera yn 1969, cafodd disgyblion Abertawe deithio yno i gael addysg uwchradd Gymraeg. Ym mis Medi 1977 anfonodd Dr John Davies at John Beale, cyfarwyddwr addysg Gorllewin Morgannwg, a ffurfiwyd yn 1974, i nodi bod angen ysgol uwchradd yn yr ardal. Cefnogwyd yr alwad gan rieni Pontybrenin, yr oedd rhaid i rai o'u disgyblion deithio mwy nag 20 milltir i Ystalyfera. Yna daeth rhieni ysgolion Cymraeg y sir at ei gilydd a ffurfio Cymdeithas Ysgolion Cymraeg Gorllewin Morgannwg, a ddaeth yn rhan o RHAG.

Doedd yr argoelion cynnar ddim yn wych. Yn 1977 lluniodd Mr John Beale gynllun iaith i ysgolion, gan roi blaenoriaeth i'r Ffrangeg yn hytrach na'r Gymraeg. Bu'n rhaid wrth wrthwynebiad rhieni cyn i'r cynllun hwn cael ei roi yn y bin.

Erbyn 1978 roedd 1,200 o blant yn Ystalyfera, a'r nifer yn debygol o gynyddu i 1,400 erbyn 1980. Paratodd pwyllgor y rhieni adroddiad yn nodi'r angen am ysgol, ac yn annisgwyl atebodd Mr Beale gan ddweud ei fod ystyried Ysgol Llwyn-y-bryn, yn yr Uplands, yn safle i ysgol ddwyieithog. Ond mewn pwyllgor ar y 21ain o Dachwedd 1978 cynigiodd fod ysgol ddwyieithog yn cael ei sefydlu yn y Sandfields, Port Talbot. Ymateb y Cynghorydd Paul Valerio, y Tori, fod y syniad o gael ail ysgol ddwyieithog yn un ffiaidd. Yn yr un cyfarfod pasiodd y pwyllgor addysg fod yr Eglwys yng Nghymru'n cael defnyddio adeilad Llwyn-y-bryn.

Cynhaliwyd cyfarfod o gannoedd o rieni yn y YMCA, Abertawe i drafod y Sanfields, ond roedd gwrthwynebiad cyffredinol, yn rhannol am fod y pellter teithio'n parhau i lawer o ddisgyblion. Erbyn diwedd Awst 1979 tynnwyd cynnig y Sandfields yn ôl, a dadleuodd y rhieni dros ddefnyddio safle Llwyn-y-bryn dros dro. Daeth dros fil o rieni i safle'r ysgol honno a gorymdeithio i neuadd y sir.

Yna cynigiodd Mr Beale syniadau eraill: sefydlu unedau Cymraeg mewn ysgolion Saesneg a hefyd newid pwrpas ysgol uwchradd a oedd ar y gweill ym Mhontarddulais. Digiodd rhieni Pontarddulais a chasglu deiseb o 4,000 yn erbyn i'r ysgol honno fod yn un ddwyieithog.

Mewn cyfarfod o'r Cyngor trechwyd cynnig y Parch Aled Gwyn dros sefydlu'r ysgol ddwyieithog yn Llwyn-y-bryn, a threchwyd hefyd gynnig Paul Valerio, a gafodd gefnogaeth y meddyg amlwg Dr Danino, Treforys, na ddylid ystyried sefydlu unrhyw ysgol uwchradd ddwyieithog.

Erbyn mis Ebrill 1980, cydnabu Randolph Jenkins, "Rwy'n ofni nad yw Mr Beale yn gyfaill i'r iaith Gymraeg yn y sir." Casglodd rhieni'r ysgolion Cymraeg 24,000 o enwau ar ddeiseb yn galw am sefydlu'r ysgol yn Llwyn-y-bryn. Aeth 500 o rieni i neuadd y sir, ond gwrthododd Mr Kingdom, cadeirydd y pwyllgor addysg, a Mr Beale gwrdd â'r rhieni.

Protestiodd 200 o rieni yn neuadd y sir cyn cyfarfod y pwyllgor addysg ym mis Gorffennaf 1980. Y tro hwn roedd Mr John Beale wedi dod â chynnig newydd, sef sefydlu ysgol iau i blant 11-13 ar hen safle Ysgol Glanmôr, fel y gallai plant Gorllewin Morgannwg i gyd deithio yno a symud wedyn i Ystalyfera. Trechwyd cynnig Aled Gwyn fod safle Glanmôr yn dod yn ysgol i rai 11-16 oed. Cynnig nesaf Mr Beale oedd na ddylai'r sir wneud dim, ond derbyniodd y pwyllgor gynnig Y Cynghorydd Wignall (Llafur) fod y cyfarwyddwr yn parhau i drafod gyda rhieni.

Cyfarfu cannoedd o rieni i dderbyn y syniad o gael ysgol 11-16 yng Nglanmôr, ond yng nghyfarfod y pwyllgor addysg, Chwefror 1981, cynigiodd Mr Beale y syniad o ysgol 11-13 oed unwaith eto. Gwrthwynebwyd hyn gan y Cynghorydd Frank Evans (Castell-nedd), oedd yn is-gadeirydd Ysgol Gymraeg Castell-nedd, gan ddweud bod gwario arian ar ail ysgol gyfun ddwyieithog yn wastraff llwyr. Cefnogwyd ef gan Sam John (Llafur) a ddywedodd fod addysg Gymraeg yn creu ghetto. Roedd y ddau o blaid unedau Cymraeg mewn ysgolion Saesneg.

Cyhuddodd y Parch Gareth Thomas y cyfarwyddwr addysg a'r pwyllgor o ddiffyg ewyllys da at yr iaith. Ymateb Mr Beale wedyn oedd cynnig ysgol gyfun iau Ystumllwynarth i fod yn ysgol ddwyieithog, a phasiodd y pwyllgor addysg ei sefydlu yno yn 1983 cyn symud i safle mwy yn Nhre-Gwyr. Roedd hyn yn fuddugoliaeth, ond gwrthwynebodd y Cynghorydd Bill Hughes (Tori) yn ffyrnig, ac erbyn Gorffennaf 1983 gwrthododd Nicholas Edwards, ysgrifennydd gwladol Cymru, roi'r adeilad i'r ysgol.

Roedd un gobaith ar ôl. Roedd ysgol uwchradd iau Tre uchaf, Casllwchwr, yn dod yn wag. Ar y 15fed o Dachwedd daeth 800 o rieni o flaen neuadd y sir i gefnogi sefydlu'r ysgol ar y safle hwn. Pasiodd y pwyllgor addysg yn unfrydol gynnig bod yr ysgol gyfun ddwyieithog yn cael ei sefydlu yno ym mis Medi 1984, gan symud i safle yn Nhre-Gwyr yn 1987.



Sut cafwyd y gefnogaeth sydyn hon? Roedd y Parch Gareth Thomas wedi trafod yn bersonol gyda'r Cynghorydd John Allison, arweinydd y cyngor, yr oedd ei wyrion yn mynychu ysgolion Cymraeg. Y sôn yw i John Allison ddweud wrth ei gyd-gynghorwyr y byddai'n ymddiswyddo o'i rôl pe na baent yn cefnodi'r cynllun.

Roedd rhaid cael caniatâd y Swyddfa Gymreig i'r cynllun. Ysgrifennodd llu o rieni at Mr Nicholas Edwards i erfyn arno i dderbyn y cynnig. Yn annisgwyl, daeth gwrthwynebiad o du'r Aelod Seneddol Lleol, Mr Gareth Wardell, a ddywedodd wrth rieni Casllwchwr ei fod yn 'disappointed and angry' ynglyn â'r cynllun. Ofer oedd ei wrthwynebiad.

Ond nid dyna ddiwedd hanes ymgyrchu dros addysg Gymraeg yn Ysgol Gŵyr. Roedd y disgyblion yn dal i fynd i chweched dosbarth mewn ysgolion neu golegau eraill, a'r rhai oedd am gael addysg Gymraeg yn dal i deithio i Ystalyfera. Cychwynnwyd ymgyrch i gael addysg 16+ yn Ysgol Gwyr.

Gyda chyfarwyddwyr addysg newydd, Mr Gareth Roberts, Mr Brunt ac yna Mr Richard Parry, o dipyn i beth llwyddodd y pennaeth, Dr Neville Daniel, i drefnu bod disgyblion yr ysgol yn astudio pynciau 16+ yn yr ysgol, ond yn gysylltiedig â Choleg Gorseinon ac yna Ysgol Tregwyr. Erbyn diwedd 1999 ildiodd Cyngor Abertawe i'r syniad o ganiatau i Gwyr gael darpariaeth 16+ a phasiwyd hyn yn swyddogol ym mis Medi 2021.

Llawenydd yw gwybod bod gan Ysgol Gwyr erbyn hyn 1,200 o ddisgyblion a Bryn Tawe, ei chwaer ysgol a sefydlwyd yn 2003, ryw 850, a'r niferoedd yn dal i dyfu. Yn y cyfamser sefydlwyd ysgol Gymraeg arall i ddisgyblion 11-16, Ysgol Gyfun Bro Dur, gan Gyngor Castell-nedd.

## PENODIAD NEWYDD I GÔR TŶ TAWE

### EDWARD-RHYS HARRY YN YMUNO FEL ARWEINYDD

**-RICH COMBELLACK**



Mae Côr Ty Tawe yn hynod falch o gyhoeddi penodiad y cyfansoddwr a'r arweinydd Dr Edward-Rhys Harry yn Arweinydd y Côr o fis Medi 2025.

Yn frodor o Benclawdd, mae Dr Harry yn arweinydd corawl a chyfansoddwr o fri rhyngwladol, ac mae e wedi cynnal ei gysylltiad agos â Phenrhyn Gŵyr. Mae ganddo angerdd dros gerddoriaeth Gymraeg a'r pŵer sydd gan gerddoriaeth i gryfhau cymunedau a Chymreictod yn Abertawe a'r cylch.

Dr Harry oedd y Cymro cyntaf i raddio mewn Arwain Corawl yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru, ac yn 2022 enillodd Dlws y Cerddor yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron am ei opera siambr Gymraeg Yr Islawr.

Mae Dr Harry yn sylfaenydd a chyfarwyddwr Gŵyl Cerddoriaeth Cymru yn Llundain, ac yn gyfarwyddwr artistig Côr Siambr Cymru a'r Harry Ensemble. Mae e hefyd yn Rheolwr Datblygu a Llesiant Cerddorol i Military Wives Choirs, ac yn Gyfansoddwr Preswyl i Music for Life. Mae ei brofiad cerddorol amrywiol yn cynnwys gweithio mewn neuaddau cyngerdd, tai opera, eglwysi cadeiriol a sianeli radio ledled y byd.

Dywedodd llefarydd ar ran Côr Tŷ Tawe:

"Mae angerdd Edward-Rhys Harry dros gerddoriaeth Gymraeg, ei ymrwymiad i'n milltir sgwâr a'i brofiad eithriadol yn cynnig cyfnod cyffrous i'r Côr. Ry'n ni'n methu aros am ganu gyda'n gilydd unwaith eto ar ôl yr haf!"

Am Gôr Ty Tawe:

Sefydlwyd Côr Tŷ Tawe yn 1990 yn gôr pedwar llais i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn Abertawe a'r cylch, dan arweiniad Helen Gibbon.

O dan yr Arweinydd dros y ddwy flynedd diwethaf, Bethan Wynne Phillips, mae'r Côr wedi canu'n rheolaidd yn ardal Abertawe, a chanodd gyda Chôr y Boro yn Llundain ym mis Chwefror 2025, gan helpu i godi arian i elusennau lleol megis Llys Nini a Tenovus.

Mewn blynyddoedd cynharach, yn ogystal â chanu i gynulleidfaoedd ar draws Cymru, teithiodd y Côr i berfformio dramor, gan gynnwys teithiau i'r Almaen, Awstria, Yr Eidal, Gwlad Pwyl a'r Weriniaeth Tsiec. Bu'n llwyddiannus yn yr ŵyl Ban-Geltaidd ar sawl achlysur a bu'n cystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol.




Bydd y Côr yn ail-ddechrau nos Lun Medi 8 am 7 o'r gloch. Mae'r Côr yn croesawu aelodau newydd, ac mae'n agored i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ar bob lefel sy'n chwilio am brofiad cerddorol cwbl Gymraeg.

Bydd penodiad Dr Harry yn nodi cyfnod newydd ac ysbrydoledig i Gôr Ty Tawe, gan gynnig cyfleoedd cerddorol newydd i aelodau'r Côr ac i'r gymuned ehangach.

## CYW YN DEORI

**-ROB EVANS**

Rhyw fis yn ôl roeddwn i wedi sylweddoli mod i'n clywed sŵn ysguthan tu allan i ddrws gefn y tŷ. Dach chi'n nabod y sŵn? "Cwwwww, cwwwww" ysgafn trwy'r amser, roedd rhaid i mi wneud ymdrech mawr i beidio mynd i gysgu!




Yn amlwg iawn roedd y deryn yn teimlo'n gyfforddus iawn ble bynnag oedd hi. Rhywle yn yr ardd drws nesaf roeddwn i'n meddwl. Ond un bore sylwais ar frigau ar y llawr ac edrychais i fyny. Gwelais i ddim byd i ddechrau ond wrth gerdded i fyny'r ffordd ac edrych yn ôl dyma fi'n gweld brigau yn dangos uwchben ochrau'r landerau.

Sut ydw i'n teimlo? Wel dw i ddim yn hapus wrth reswm, am un peth mae'n hollol dwp i adeiladu nyth mewn lle fydda'n llifo mewn dŵr unwaith dyn ni'n cael cawod fawr. Yr ail beth yw byddai raid i mi glirio gweddillion y nyth pan mae'r teulu wedi gadael.

Gobeithio bydden nhw'n mynd i rywle arall y flwyddyn nesaf!

Ond y bore 'ma welais blisgyn ar y llawr ac mae hynny'n golygu bod cyw wedi deori.

Tybed bydden nhw eisiau fi fel tad bedydd!



## BYD NATUR MIS AWST

**-PATRICK SOPER**

Er bod ei enw'n od, planhigyn gyda blodyn hyfryd yw tamaid y cythraul. Dyma blanhigyn lluosflwydd sy'n hoffi perthi a dolau gyda gwrychoedd. Mae hi'n perthyn o bell i aelodau teulu llygad y dydd;

gall dyfu at dros ddwy droedfedd o uchder gyda choesau hir a main sy'n dal pen blodyn glas neu borffor. Mewn gwirionedd clwstwr o flodau bach yw hon, yn ffurfio bwa isel a gellir ei gweld rhwng mis Mehefin a mis Hydref.



Tamaid y Cythraul

Os ydych chi'n edrych yn fanwl ar ei blodau, gallwch ganfod eu hantherau nodweddiadol sy'n edrych fel gyrdd pren bach arnyn nhw. Mae'r antherau yng nghanol bob blodyn ar flaen y wydden fach, nhw sydd yn cynhyrchu'r paill.

Roedd gan damaid y cythraul sawl defnydd yn feddygaeth draddodiadol - yn benodol yn defnyddio ei sudd i drin nifer o anhwyldebau'r croen. (yn Saesneg, 'scabies'). Roedd yn arfer cael ei dweud mai mor grac roedd y cythraul gyda'r planhigyn hwn' am fod o les i'r ddynoliaeth, brathodd i ffwrdd rhan o'i gwraidd gan obeithio ei lladd. Bron yr un ffunud â thamaid y cythraul yw clafrllys y maes.

Mae gan deiliai gwyllt ben blodyn pinc neu borffor o'i ail flwyddyn ymlaen sy'n gynnwys llawer o flodau bychain. Gall y planhigyn hwn dyfu hyd at dros chwe throedfedd o uchder ac yn ffynnu yn agos i ddŵr fel arfer. Conigol yw goden yr hadau, yn sych ac yn bigog, ac mae'n boblogaidd gyda'r nico. Gellir dod o hyd iddo yn ardaloedd y de ond mae'n brin yng ngogledd Prydain.



Teiliau Gwyllt

Llysiau cribwr yw ffurf teilau gwyllt a gâi ei hamaethu yng Ngwlad yr Haf tan mor ddiweddar â 1970au oherwydd defnyddiwyd eu codennau hadau yn y diwydiant gwlân;byddai efallai dwsin o godennau hadau mewn ffrâm syml ac wedi'i llyfnu yn ysgafn â llaw dros ddarn o frethyn er mwyn gwella ei wead.



Milddail

Aelod gwydn y teulu llygad y dydd yw'r milddail. Dyma blanhigyn lluosflwydd brodorol sy'n blodeuo mewn dolau ac wrth ymyl ein ffyrdd rhwng mis Mehefin a Thachwedd, ac yn tyfu i uchder o ryw 18". Mae gan y planhigion hyn ddail gleision tywyll a phluog a blodau bychain sy'n ffurfio coron wen hufennog. Planhigyn bach a diymhongar yw hwn ond ei blodau yn ddeniadol i wenyn a pheillwyr eraill.

## CANMLWYDDIANT MEINI'R ORSEDD
### -ELIN MEEK

Cafwyd bore hyfryd yn llygad yr haul ym Mharc Singleton, ddydd Sadwrn 12 Gorffennaf dan nawdd Ffrindiau Parc Singleton, i ddathlu'r ffaith bod meini'r orsedd yn 100 oed eleni. Daeth yr Archdderwydd, yr Athro Mererid Hopwood i roi hanes y meini, eisteddfodau Abertawe ac i esbonio rhai o symbolau a thraddodiadau'r Orsedd. Llwyddodd Mererid fel arfer i ysbrydoli pawb wrth iddi ddangos pa mor bwysig yw'r Gymraeg i ni'r Cymry i gyd gan symud yn gelfydd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Cafwyd cyfraniadau ar lafar hefyd gan Cheryl Philpot, Maeres Abertawe a Sue Davies, sy'n arwain elusen Ffrindiau Parc.



Yn gyfeiliant i'r cyfan, roedd drymio egnïol Aber Taiko, canu hudolus Helen Gibbon (medli o ganeuon gwerin gyda chytgan 'Cymru Fach' yn goron ar y cyfan), a chanu brwdfrydig a llon The Shanty Jacs a Chôr Cymunedol Brynmill.

Yn y llun o'r chwith i'r dde mae Helen Gibbon, Sue Davies, Mererid Hopwood a Cheryl Philpott.

## CARU CYNEFIN YN YSGOL GYMRAEG Y CWM
### -CATRIN PRYCE, DIRPRWY BENNAETH

Bu staff a disgyblion yr ysgol yn brysur yn ystod tymor yr haf yn astudio agweddau o'r ardal leol. Dysgom lawer am ein cymuned a'r hyn sydd ar ein stepen drws. Dyma luniau o'n harddangosfeydd fesul dosbarth:

Meithrin - Yr ysgol
Derbyn a Blwyddyn 1 - Carreg Bon-y-maen
Blwyddyn 1 a 2 - Yr Afon Tawe
Blwyddyn 3 a 4 - Mynydd Cilfai
Blwyddyn 5 a 6 - Bomio Ffynnonfadog (effaith yr Ail Ryfel Byd)

Gwahoddwyd rhieni, llywodraethwyr a ffrindiau'r ysgol i weld ein harddangosfa ysgol gyfan yn ymwneud â Charu Cynefin.

## Y ROBIN GOCH A'R MONA LISA
### -ROB EVANS

Yn yr haf pan mae hi'n gynnes, sydd ddim yn digwydd yn ddigon aml, dw i'n eistedd ar y sedd o flaen ffenest y gegin efo paned o goffi peth cyntaf yn y bore. Mae'r adar o gwmpas yn canu'n hapus – maen nhw'n hoffi'r tywydd braf hefyd. Mae'r fwyalchen yn bobio o gwmpas yn brysur yn chwilio am fwyd. Mae'r robin goch yn cael amser mwy hamddenol, mae o'n fusneslyd, beth sydd yn mynd ymlaen?

Dyna fo ar ben y ffens ar ochr gefn yr ardd ac yn edrych arnaf, un naid ac mae yn yr awyr ac yn glanio ar ben y postyn ar y chwith ac, eto, mae'n edrych arnaf. Y peth nesaf mae o draw ar ochr dde'r ardd ac, ia, dach chi'n iawn, mae'n edrych arnaf!

Dw i'n syllu yn ôl arno a dw i'n canolbwyntio ar ei lygad achos trwy edrych i mewn i'w lygad dw i'n gallu darllen ei feddwl. Dw i'n canolbwyntio ac yn canolbwyntio, dw i'n defnyddio fy holl egni tan yn sydyn – Iwrica! Dw i wedi cysylltu.

Pan oedd o'n symud o gwmpas yr ardd ac yn syllu arnaf roedd o'n crychu ei dalcen a doeddwn i ddim yn gwybod pam a dyma fy nghyfle i ddysgu pam.

Wel, trwy'r holl amser roedd o wedi bod yn trio gweithio allan pwy o'n i ac yn y diwedd roedd o wedi penderfynu: Fi yw'r Mona Lisa achos ble bynnag roedd o'n sefyll yn yr ardd roedd fy llygaid yn ei ddilyn o. A dyna chi, doeddwn i ddim yn gwybod hynny chwaith. A pheidiwch anfon negeseuon i ddweud "You're no oil painting either!". Byddwch yn garedig.






# NEWYDDION YSGOL GYFUN GŴYR

## COFIO TRWY GÂN

Wrth deithio yng Ngwlad Belg, bu Côr Ysgol Gyfun Gwyr yn ymweld â rhai o'r safleoedd mwyaf pwerus yn hanes y Rhyfel Byd Cyntaf – gan gynnwys Mynwent Tyne Cot, y gofeb Gymreig yn Langemark, a beddau milwyr Cymreig.

Un o'r uchafbwyntiau mwyaf dirdynnol oedd ymweld â bedd Hedd Wyn – y bardd a laddwyd ym Mrwydr Pilkem yn 1917 cyn iddo ennill y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Birkenhead. Ei gadeirio ar ôl ei farwolaeth yw un o'r digwyddiadau mwyaf symbolaidd yn hanes Cymru.

Roedd y daith yn gyfle i fyfyrio, talu teyrnged, a chanu mewn awyrgylch llawn parch a hanes.







## HYDROGEN, HERIAU A HWYL!





Unwaith eto eleni, cafodd criw o Flwyddyn 10 gyfle gwych i arddangos eu gwaith ar hydrogen a datgarboneiddio yn Stiwdios y Bae, Abertawe.
Cawsant gyfle i drafod "pob dim hydrogen" gyda chwmnïau rhyngwladol, archwilio stondinau, prynu bwyd blasus ac, wrth gwrs, rhoi cynnig ar gemau fel y bronco rodeo – a phopeth wedi'i bweru gan hydrogen!
Diwrnod llawn dysgu, arloesi a digon o chwerthin – diolch i bawb am y croeso cynnes ac i Ms Lindholme-Evans am drefnu!

## DISGYBLION YSGOL GYFUN GŴYR WRTH GALON LLAIS POBL IFANC ABERTAWE!

Ar ddiwedd tymor, bu Beca a Zofia o Fl.9 yn cynrychioli'r ysgol mewn digwyddiad arbennig "Llais y Disgybl" gyda Chyngor Abertawe, ochr yn ochr â disgyblion o ysgolion uwchradd ledled y ddinas.
Roedd y digwyddiad yn gyfle i leisio barn pobl ifanc ar faterion pwysig gan gynnwys: Diogelwch cymunedol, Amrywiaeth a gwrth-hiliaeth, Rhwystrau i ddysgu, Yr amgylchedd, Llesiant meddwl ac Hygyrchedd.
Ar ran y Cyngor Ysgol, siaradodd y merched yn angerddol ac yn glir – yn llysgenhadon gwych dros ein hysgol a'u cenhedlaeth. Edrychwn ymlaen at weld Cyngor Abertawe yn gwrando ac yn gweithredu.



# NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

## TROSGLWYDDO ARIAN I ELUSEN LATCH
**-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED**

Efallai i chi gofio i griw o flwyddyn 12 godi arian ym mis Chwefror ar gyfer elusen Latch. Roedd Kitty o flwyddyn 12 yn awyddus i godi arian i'r elusen er cof am ei chyfnither fu farw y llynedd. Ym mis Gorffennaf cafodd Kitty ac Elen y cyfle i fynd i Gaerdydd i drosglwyddo'r arian a godwyd i gynrychiolydd o'r elusen. Arbennig ferched!




## FFARWELIO GYDA BLWYDDYN 13
**-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED**

Ar Orffennaf y 1af cafwyd noson hyfryd stadiwm Swansea.com yn dathlu a ffarwelio gyda chriw blwyddyn 13 eleni. Diolch i'r tîm o uwch swyddogion ac yn arbennig i Ella Thomas am drefnu'r noson fendigedig a oedd yn llawn chwerthin! Dymunwn yn dda iddyn nhw ar eu llwybrau amrywiol ym mis Medi.



## GWASANAETH GWAED
**-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED**



Fel rhan o'n gweithgareddau 'Dringo'n Uwch' i flwyddyn 12 eleni daeth y Gwasanaeth Gwaed Cenedlaethol i mewn i esbonio sut mae rhoi gwaed a sut mae'r cofrestr bôn gelloedd yn gweithio. Gwych oedd gweld nifer o flwyddyn 12 yn cofrestru!



## GWOBRAU HEDDWCH 2025
**-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG**

Llongyfarchiadau i griw o ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe am ddod yn ail yng nghategori 'Adeiladwr Heddwch Cymunedol' yng 'Ngwobrau Heddychwyr Ifanc 2025' a gynhelir gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Paratowyd dau fideo yn ystod y flwyddyn yn hyrwyddo heddwch, un ar gyfer Diwrnod Heddwch Rhyngwladol a Diwrnod coffa Waldo a'r llall yn cyhoeddi Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd eleni. Cymerodd disgyblion o fl.7 i 13 ran yn y fideos a dyma lun o gynrychiolaeth ohonynt.



Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Awst.
Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia.
Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Medi erbyn Awst 26ain trwy ebostio Anys at:
**datblygu@menterabertawe.org**
Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG Dysgu Learn
Ariennir yn Rhannol gan Llywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government